**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Traffordd yr M48 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cylchfan Newhouse) Cas-gwent) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2021**

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan yr Adran Seilwaith Economaidd ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig **Rheoliadau Traffordd yr M48 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cylchfan Newhouse), Cas-gwent) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2021**. Rwy’n fodlon bod y manteision yn drech nag unrhyw gostau.

**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

1. **Disgrifiad**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno, am resymau’n ymwneud â diogelwch, ostyngiad i'r terfyn cyflymder uchaf, ar ddarnau o’r ffyrdd ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyffordd 2 ar Draffordd yr M48 (Cylchfan Newhouse) yn Sir Fynwy, a bennir fel a ganlyn:

(i) y ffordd ymadael tua'r gorllewin o bwynt 200 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chyffordd 2 (Cylchfan Newhouse) hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol; a

(ii) y ffordd ymadael tua'r dwyrain o bwynt 250 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chyffordd 2 (Cylchfan Newhouse) hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd gylchredol.

2. **Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

Dim.

3. **Y Cefndir Deddfwriaethol**

Mae'r pwerau sy'n caniatáu i’r offeryn hwn gael ei wneud i’w gweld o dan Adrannau 17(2),(3) a (3ZAA) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (RTRA). Mae'r rhain yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau mewn perthynas â ffyrdd arbennig penodol fel traffyrdd ac er mwyn rheoleiddio cyflymder cerbydau ar y ffyrdd hynny, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru.

Bwriedir gwneud yr offeryn hwn o dan y weithdrefn negyddol.

4. **Diben ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth**

Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu gweithredu a gorfodi terfyn cyflymder gorfodol o 40 mya mewn perthynas â'r darnau o'r M48 a bennir yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau. Mae'r darnau'n cynnwys y ffyrdd ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain i gerbytffordd gylchredol Cylchfan Newhouse. Mae defnyddio'r terfyn cyflymder gorfodol o 40 mya yn rhan hanfodol o'r cynnig i wella diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer defnyddwyr yr M48.

5. **Gweithredu**

Pe bai'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei dirymu, byddai diogelwch ar y rhan hon o Draffordd yr M48 yn cael ei beryglu. Dyddiad dod i rym yr Offeryn hwn yw 12 Ionawr 2022.

6. **Ymgynghori**

Yn unol ag Adran 134 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, ceisiwyd barn sefydliadau a grwpiau cynrychioliadol rhwng 6 Awst 2021 – 27 Awst 2021 a 24 Medi 2021 – 15 Hydref 2021 (cyfnod 2X 3 wythnos).

Mae'r rhestr o ymgyngoreion a chrynodeb o unrhyw ymatebion i'w gweld yn Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

7. **Asesiad Effaith Rheoleiddiol o Reoliadau Traffordd yr M48 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cylchfan Newhouse) Cas-gwent) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2021**

Cafodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ei baratoi gan yr Adran Seilwaith Economaidd ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**1. Yr Opsiynau**

**Opsiwn 1: Gwneud Dim.**
Pe na bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud, byddai'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol presennol (70 mya ar gyfer y rhan fwyaf o gerbydau) yn parhau ar y ddwy ffordd ymadael. Mae gwaith i wella diogelwch ar y ffyrdd ar Gylchfan Newhouse a Ffordd Gyswllt gyfagos yr A466 Dyffryn Gwy wedi'i raglennu i ddechrau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol ac mae'n cynnwys gostyngiad yn y terfyn cyflymder i 40mya ar y Gylchfan a 50mya ar yr A466.

Nodwyd nifer o faterion sy'n gysylltiedig â diogelwch ar y ddwy ffordd ymadael, gan gynnwys gwrthdrawiadau â chefn cerbydau a gwrthdrawiadau sy'n ganlyniad i newid lonydd ar y ffyrdd ymadael yn hwyr ac yn sydyn. Mae'r gostyngiad arfaethedig i'r terfyn cyflymder yn fesur a allai helpu i leddfu'r gwrthdrawiadau hyn ac mae'n ystyried y dystiolaeth sy'n awgrymu bod y llifau traffig sy'n defnyddio'r ffyrdd ymadael wedi cynyddu yn ystod y 12 mis ar ôl cael gwared ar y tollau ar Bont Hafren ar yr M48 gerllaw. O ganlyniad, gallai cadw'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol, yn yr achos gwaethaf, arwain at ragor o wrthdrawiadau.

**Opsiwn 2: Gostyngiad yn y Terfyn Cyflymder Cenedlaethol ar y ffyrdd ymadael i 40mya.**
Bydd gwneud y ddeddfwriaeth ar gyfer y darnau o'r ddwy ffordd ymadael yn helpu i ddarparu manteision o ran diogelwch ac yn ategu'r terfyn cyflymder o 40mya y bwriedir ei roi ar waith ar y Gylchfan. O gofio bod y darnau o ffyrdd ymadael dan sylw yn gymharol fyr bydd yr effaith ar amseroedd teithio yn ddibwys. Ymgynghorwyd â Heddlu Gwent ond nid ydynt wedi cyflwyno unrhyw wrthwynebiad na sylwadau negyddol mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth hon.

## 2. Y costau a’r manteision

### a) Y Costau

**Opsiwn 1: Gwneud Dim.**
Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â chadw'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol presennol ar y ddwy Ffordd Ymadael.

**Opsiwn 2: Gostyngiad i’r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol ar y ffyrdd ymadael i 40mya.**
Mae’r costau sy’n gysylltiedig â gostwng y terfyn cyflymder yn rhyw £40,000 ac maent yn cynnwys darparu'r arwyddion traffig a’r marciau ffordd parhaol a fydd yn dangos y terfyn cyflymder. Ystyrir bod y costau hyn yn fforddiadwy o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) 1885 2019/20, oherwydd eu bod wedi'u cynnwys yn y gwaith diogelwch ar y ffyrdd a ariennir yn llawn ac y cyfeirir ato yn Adran 1.

### b) Y Manteision

Rydym wedi nodi manteision y ddau opsiwn, fel a ganlyn:

**Opsiwn 1: Gwneud Dim.**
Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn

**Opsiwn 2: Gostwng y Terfyn Cyflymder Cenedlaethol ar y ffyrdd ymadael i 40mya**
Byddai gwneud y ddeddfwriaeth hon yn golygu y byddai modd gostwng y terfyn cyflymder uchaf, a byddai’n arwain at gyflymder is ar y ffyrdd sy’n dynesu at Gylchfan Newhouse. Byddai’r terfyn yn gyson â'r terfyn ar y Gylchfan, a gallai gostwng y terfyn cyflymder hefyd olygu y byddai gwrthdrawiadau â chefn cerbydau a gwrthdrawiadau oherwydd bod cerbydau’n newid lonydd yn annisgwyl, yn llai tebygol ac yn llai difrifol.

## 3. Ymgynghori

Yn unol ag Adran 134(10) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, gofynnwyd am farn sefydliadau a grwpiau cynrychioliadol rhwng 06 Awst 2021 - 27 Awst 2021 a 24 Medi 2021 – 15 Hydref 2021 . Mae rhestr o'r ymgyngoreion a chrynodeb o'r ymatebion i’w gweld yn yr Atodiad.

## 4. Asesu Cystadleuaeth

Bernir na fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig hon yn cael unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth gan mai'r unig fwriad yw sicrhau bod cerbydau'n gallu teithio'n ddiogel drwy leihau cyflymderau ar y ffyrdd sy’n dynesu at Gylchfan Newhouse.

**5. Adolygiad ar ôl gweithredu**

Mae Archwiliad Diogelwch ar y Ffyrdd (RSA) annibynnol yn cael ei gynnal ar gyfer unrhyw newidiadau i'r rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd a allai effeithio ar ymddygiad defnyddwyr ffyrdd neu a allai arwain at newid canlyniadau gwrthdrawiadau.

Cynhaliwyd Archwiliad Diogelwch ar y Ffyrdd (RSA) Cam 1/2 ar ôl cwblhau’r gwaith dylunio manwl ar y cynlluniau ar gyfer yr arwyddion traffig a’r marciau ffordd, a bydd Archwiliadau Diogelwch ar y Ffyrdd (RSA) eraill yn cael eu cynnal (Cam 3) pan fydd y gwaith wedi’i gwblhau, ac yna 12 mis a 36 mis ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau (Camau 4 a 4a).

Mae'n ofynnol i swyddogion ystyried y problemau a nodir yn ystod pob cam o'r broses RSA a chymryd camau priodol i’w lliniaru.

**ATODIAD**

**RHESTR YMGYNGHORI**

6 Awst 2021 – 27 Awst 2021

| Sefydliad | Ymateb |
|---|---|
| | |
| Cyngor Sir Fynwy | Dim sylwadau |
| Cyngor Tref Cas-gwent | Dim sylwadau |
| Heddlu Gwent | Dim sylwadau |
| Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | Dim sylwadau |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Dim sylwadau |
| Road Haulage Association Ltd. | Dim sylwadau |
| Y Gymdeithas Cludo Llwythi | Dim sylwadau |
| NAVTEQ | Dim sylwadau |
| TrafficMaster Travel | Dim sylwadau |
| Rheolwr Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru | Dim sylwadau |
| ‘GanBwyll’ | Dim sylwadau |
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Dim sylwadau |
| HERE | Dim sylwadau |
| AA | Dim sylwadau |
| RAC | Dim sylwadau |
| | |

24 Medi 2021 – 15 Hydref 2021

| Sefydliad | Ymateb |
|---|---|
| | |
| Cyngor Sir Fynwy | Dim sylwadau |
| Cyngor Tref Cas-gwent | Dim sylwadau |
| Heddlu Gwent | Dim sylwadau |
| Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | Dim sylwadau |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Dim sylwadau |
| Road Haulage Association Ltd. | Dim sylwadau |
| Y Gymdeithas Cludo Llwythi | Dim sylwadau |
| NAVTEQ | Dim sylwadau |
| TrafficMaster Travel | Dim sylwadau |
| Rheolwr Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru | Dim sylwadau |
| ‘GanBwyll’ | Dim sylwadau |
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Dim sylwadau |
| HERE | Dim sylwadau |
| AA | Dim sylwadau |
| RAC | Dim sylwadau |
| | |